| | |
|---|---|
| **Dyddiad creu:** | 17/03/2023 |
| **Dyddiad cyhoeddi:** | 11/04/2023 |
| **Rhif y fersiwn:** | 1.00 |

| | |
|---|---|
| **Maes Gwasanaeth:** | Mannau Gwyrdd a Gwasanaethau Trafnidiaeth |
| **Maes Gwaith:** | Rheoli Fflyd a Chynnal a Chadw Cerbydau |
| **Manylion Cyswllt:** | 01443 863448<br>Pricel7@caerffili.gov.uk |
| **Enw Rhybudd Preifatrwydd:** | Tracio Cerbydau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| **Disgrifiad o'r Rhybudd Preifatrwydd:** | Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn egluro sut bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn defnyddio gwybodaeth tracio GPS o'n cerbydau, lle gellir priodoli'r wybodaeth tracio hon i ddefnyddiwr cerbyd. |

# Sut y byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth

## Ffynhonnell a'r math o wybodaeth sy'n cael ei phrosesu

### Categorïau a Ffynhonnell data personol a geir

Gosodir dyfais tracio GPS ar gerbydau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, sy'n ein galluogi ni i dracio teithiau'r cerbyd hwnnw. Bydd y ddyfais tracio'n cofnodi'r wybodaeth am y cerbyd, megis data lleoliad, pa mor hir mae'r injan yn troi, pa mor llawn yw'r batri, cyflymder y cerbyd, pa mor hir y mae wedi ei barcio ac a yw'r injan yn troi pan mae'r cerbyd yn llonydd. Bydd yr wybodaeth yn cael ei dychwelyd i'r Cyngor o'r ddyfais tracio drwy feddalwedd Rheoli Fflyd. Mae gan y Cyngor dros 500 o gerbydau fflyd ac mae llawer ohonyn nhw'n cael eu neilltuo i staff sy'n dychwelyd y cerbydau i'w cartrefi ar ddiwedd diwrnod gwaith. O ganlyniad i'r ffaith bod y ddyfais tracio yn cofnodi data lleoliad cerbydau'r Cyngor, gall hyn gynnwys data personol y gyrrwr wrth ei baru â manylion y defnyddiwr.

## Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth

### Diben y gwaith prosesu

Prif ddiben y system dracio GPS a'r data sy'n cael ei gasglu o'n cerbydau yw monitro perfformiad ein cerbydau. Fel arfer, ni fydd data sy'n gysylltiedig â'r cerbyd neu ddarpariaeth gwasanaeth ac ati yn datgelu'r unigolyn.

Bydd data tracio cerbyd yn cael ei ddefnyddio yn y ffyrdd canlynol:

- I ddysgu am sut mae cerbydau'n cael eu defnyddio, gan gynnwys nifer y teithiau, cyflymder y cerbyd, teithiau rheolaidd a mannau gorffwys.
- Gall data tracio gael ei ddefnyddio i ganfod cerbydau coll neu gerbydau wedi'i dwyn er mwyn eu hadfer.
- I fonitro eich lleoliad chi (a'ch cerbydau) o safbwynt dyletswydd gofal fel eich cyflogwr.

Mae'r dibenion eilaidd ar gyfer prosesu data tracio cerbydau fel a ganlyn:

- Gwerthuso'r ffyrdd mae gwasanaethau'n cael eu darparu a'r teithiau sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaethau hynny.
- Nodi arbedion effeithlonrwydd trwy ddadansoddi patrymau gwaith a defnydd stoc.
- Ymchwilio a gwerthuso ffyrdd arloesol o weithio.
- Gwerthuso'r opsiwn o newid i gerbydau allyriadau isel iawn a'r lleoliadau gorau posibl ar gyfer gwefrwyr cerbydau a'r arferion gwefru gorau posibl ar gyfer cerbydau unigol.
- I'ch diogelu os bydd damwain neu ddigwyddiad ar y ffordd, er mwyn sefydlu a oes unrhyw gyfrifoldeb.
- O bosibl, trwy ddal achosion o oryrru neu ddefnyddio cerbydau'n amhriodol, gall arwain at gamau rheoli a/neu ddisgyblu ac at ddatblygu camau gweithredu perfformiad a/neu gamau gweithredu gallu, i gyd yn unol â'n Polisïau a'n Gweithdrefnau.
- Gellir defnyddio gwybodaeth hefyd mewn ymchwiliadau troseddol lle mae ceisiadau gan Awdurdod yr Heddlu yn dod i law a lle mae'r caniatâd yn briodol.
- Amddiffyn y Cyngor mewn unrhyw achos cyfreithiol sifil yn ymwneud â'r cerbydau neu yrwyr, a chynorthwyo gydag unrhyw anghydfodau yswiriant.

### Sail gyfreithiol ar gyfer y gwaith prosesu

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o erthygl 6 o'r Rheoliad, sydd wedi'i amlinellu isod (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw).

Wrth brosesu'r data tracio cerbydau at ddibenion rheoli'r fflyd o gerbydau neu fonitro'r defnydd o'r cerbydau gan weithwyr, rydyn ni'n dibynnu ar y sail gyfreithlon ganlynol ar gyfer prosesu (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

*Article 6 (1)(f) processing is necessary for the purposes of the legitimate interests pursued by CCBC or by a third party, except where such interests are overridden by the interests or fundamental rights and freedoms of the data subject.*

Wrth brosesu data tracio'r cerbyd at ddibenion cynorthwyo'r Heddlu/Gwasanaeth Erlyn y Goron i ganfod ac atal trosedd, neu ddal neu erlyn troseddwyr, rydyn ni'n dibynnu ar y sail gyfreithlon ganlynol ar gyfer prosesu (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

*Article 6(1)(c) processing is necessary for compliance with a legal obligation to which the Council is subject.*

## Pwy fydd yn cael mynediad at eich gwybodaeth?

### Manylion y Rheolydd Data a'r Swyddog Diogelu Data

Y Rheolydd Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Mr Carl Evans
Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol/Swyddog Diogelu Data
E-bost: DiogeluData@caerffili.gov.uk
Ffôn: 01443 864322

### Manylion am brif ddefnyddwyr eich gwybodaeth

Gall y meysydd gwasanaeth isod ddefnyddio'r data tracio cerbyd:

Tîm Rheoli Fflyd
Tîm Trawsnewid

### Manylion am unrhyw achos o rannu'ch gwybodaeth o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Adnoddau Dynol
Yswiriant
Archwilio Mewnol

### Manylion am unrhyw achos o rannu'ch gwybodaeth â sefydliadau eraill

Gellir rhannu'r data tracio cerbyd gyda'r heddlu ac yswirwyr y Cyngor yn unol â'r gyfraith fel nodir uchod.

### Manylion am unrhyw brosesyddion data allanol

Bydd y data tracio cerbydau hefyd yn cael ei rannu â'n proseswyr data dewisol at ddibenion gwerthuso'r data tracio a chynllunio teithiau effeithiol. Bydd yn ofynnol i bob prosesydd data lofnodi telerau ac amodau'r Cyngor i sicrhau bod y data'n cael ei ddiogelu a'i brosesu yn unol â'r gyfraith. Y proseswyr data dewisol yw:

Optrak Distribution Software Ltd
Sefydliad Ymchwil Arloesedd Data Prifysgol Caerdydd
Flexible Power Solutions

### Ceisiadau am wybodaeth

Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth sy'n cael ei chadw gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a deddfwriaeth Diogelu Data.

Os bydd yr wybodaeth wedi'i darparu gennych chi yn destun cais o'r fath, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl. Os byddwch chi'n gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth, byddwn ni'n cadw'r wybodaeth yn ei hôl, os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

## Am ba mor hir y byddwn ni'n cadw eich gwybodaeth?

### Manylion am y cyfnod cadw

Mae pa mor hir y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu drwy ofynion statudol neu arferion gorau.

Bydd data a geir gan dracwyr cerbydau yn cael ei drosysgrifo ar ôl 30 diwrnod, ond bydd data sydd angen ei gadw oherwydd digwyddiad yn cael ei storio (yn ddiogel) am y cyfnod gofynnol yn unol â'r diben, fel yr amlinellir ym Mholisi Cadw a Gwaredu Cofnodion y Cyngor. Bydd y data a brosesir gan Optrak Distribution Software Ltd yn cael ei gadw am gyfnod heb fod yn fwy na 2 flynedd.

## Eich Hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwyno)

**Eich hawliau o dan ddeddfwriaeth Diogelu Data**

Mae'r ddeddfwriaeth Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i destun y data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdanyn nhw):

- Hawl i gael mynediad at ddata gan y testun – mae ffurflenni cais ar gyfer y broses hon ar gael ar ein gwefan ni: Ffurflen Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun (SAR)
- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael ar y wefan hon: www.ico.org.uk

Er mwyn arfer eich hawliau, cysylltwch â'r maes gwasanaeth sydd wedi'i nodi ar frig y ffurflen hon.

**Y Weithdrefn Gwyno**

Os ydych chi'n anfodlon ar y ffordd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymdrin â'ch cais/gwybodaeth, mae gennych chi'r hawl i gwyno. Cysylltwch â'r maes gwasanaeth sydd wedi'i nodi ar frig y ddogfen hon gan amlinellu eich materion.

Os byddwch chi'n parhau'n anfodlon, mae gennych chi hefyd yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Am ragor o wybodaeth am y broses gwyno, dilynwch y ddolen hon.

www.caerffili.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints?lang=cy-gb

# Crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd

## Sut y byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth

Mae gan gerbydau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ddyfais tracio GPS sy'n ein galluogi i dracio teithiau'r cerbyd hwnnw. Mae gan y Cyngor dros 500 o gerbydau fflyd ac mae llawer ohonyn nhw’n cael eu neilltuo i staff sy'n dychwelyd y cerbydau i'w cartrefi ar ddiwedd diwrnod gwaith. O ganlyniad i'r ffaith bod y ddyfais tracio yn cofnodi data lleoliad cerbydau'r Cyngor, gall hyn gynnwys data personol y gyrrwr wrth ei baru â manylion y defnyddiwr. Prif ddiben y system dracio GPS a'r data sy'n cael ei gasglu o'n cerbydau yw monitro perfformiad ein cerbydau. Hefyd i ddysgu sut mae'r cerbydau'n cael eu defnyddio gan gynnwys nifer y teithiau, cyflymder y cerbyd, teithiau rheolaidd a mannau gorffwys. Wrth brosesu data tracio cerbydau a data lleoliad gyrwyr (data personol), rydyn ni’n dibynnu ar ein Buddiannau Dilys, fel y nodir yn GDPR y DU, Article (6)(1)(f) (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw).

Mae gennych chi nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael gafael ar wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu.

I gael rhagor o wybodaeth am sut rydyn ni'n prosesu'ch gwybodaeth a'ch hawliau, cliciwch ar y ddolen ganlynol:

{Hyperddolen i'r Hysbysiad Preifatrwydd Llawn ar ein gwefan}